

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau,  
Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX  
fore lau 9 Chwefror, 2017 am 10.30

Manylion cyswllt: Hannah Williams (Rhif ffôn 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar ddydd Mawrth 7 Chwefror 2017. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cabinet yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443 424062 neu anfonwch e-bost i [Cabinet@rctcbc.gov.uk](mailto:Cabinet@rctcbc.gov.uk)

**MATERION I'W TRAFOD**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ddydd Mercher 18 Ionawr, 2017.

### **3. POLISI FFÏOEDD A CHODI TÂL 2017/18 Y CYNGOR**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n nodi'r cynnydd arfaethedig i ffïoedd a thaliadau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol, 2017/18 (gan weithredu o 1 Ebrill 2017 neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny).

**(Tudalennau 13 - 20)**

### **4. CYLLIDEB REFINIW Y CYNGOR AR GYFER 2017/2018**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi gwybod i Aelodau am Setliad Llywodraeth Leol 2017/18, canlyniad y broses ymgynghori ar y gyllideb gyffredinol a'r gweithgarwch cyn y cam craffu gan y Pwyllgor Craffu Materion Cyllid a Chyflawniad, yn gymorth i drafodaethau'r Cabinet cyn paratoi'r strategaeth ar gyfer y gyllideb referniw ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2018, a gaiff ei chyflwyno i'r Cyngor ar gyfer ei chymeradwyo.

**(Tudalennau 21 - 130)**

### **5. GORCHMYNION DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (RHEOLI CŴN)**

Derbyn adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Prifffyrdd a Gofal y Strydoedd a Chyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, sy'n ceisio caniatad i ymgynghori ar y cynnig i gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus sy'n ymwneud â rheoli cŵn yn Rhondda Cynon Taf.

**(Tudalennau 131 - 138)**

### **6. DEFNYDDIO GWEITHWYR ASIANTAETH**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol sy'n rhoi manylion i'r Cabinet am y trefniadau parthed gweithwyr asiantaeth yn y Cyngor.

**(Tudalennau 139 - 144)**

### **7. MATERION BRYD**

Trafod unrhyw faterion bryd y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**

**Cylchrediad:-**

**Y** A Morgan (Cadeirydd)  
**Cynghorwyr:** M Webber (Is-gadeirydd)  
R Bevan  
A Crimmings  
M Forey  
(Mrs) E. Hanagan  
G Hopkins  
M Norris  
(Mrs) J Rosser

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr  
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen  
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol  
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus  
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio  
Paul Mee, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd  
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd